**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Fonesig Rosemary Butler AC
Llywydd y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

15 Mawrth 2016

**Agenda Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio'r Undeb Ewropeaidd**

Annwyl Rosemary

Rydym wedi gwneud darn byr o waith yn edrych ar Agenda Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio'r Undeb Ewropeaidd.

Oherwydd y byddai pleidlais i adael yr UE yn cael effaith sylweddol ar nifer o gymwyseddau datganoledig, credwn y byddai o fudd sylweddol pe byddai'r Cynulliad yn sefydlu pwyllgor penodol i drafod y goblygiadau, os ceir pleidlais i adael. Yn benodol, byddai angen rhoi sylw gofalus i'r materion cyfreithiol a gweinyddol manwl sy'n ymwneud â datblethu deddfwriaeth Cymru a deddfwriaeth Ewrop. Rydym wedi gwneud argymhelliad i'r perwyl hwn yn ein hadroddiad etifeddiaeth, a byddem yn annog y Cynulliad nesaf i ystyried rhinweddau Pwyllgor penodol o'r fath yn ôl yr angen.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Ewrop yn ei annog i sicrhau bod y gweinyddiaethau a'r deddfwrfeydd datganoledig yn chwarae rhan fawr wrth gytuno ar y telerau pe byddai'r DU yn gadael yr UE a'r broses ar gyfer cyflawni hyn.

Yn gywir

David Melding AC, Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565